OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif. 523 (Cy.72)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cilfan gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Dde a Gwahardd Cerbydau rhag Cael Mynediad) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain–Abergwaun yr A40 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 28 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cilfan gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Dde a Gwahardd Cerbydau rhag Cael Mynediad) 2011.

**2.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd tua'r gorllewin ar y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r dwyrain o Gylchfan Robeston Wathen, droi i'r dde 280 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Robeston Wathen, i fynd ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd er mwyn mynd i mewn i ben gorllewinol y gilfan sydd gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen yn Sir Benfro.

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd tua'r gorllewin ar hyd y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r dwyrain o Gylchfan Robeston Wathen, fynd i mewn i ben dwyreiniol y gilfan sydd wedi ei lleoli 410 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Robeston Wathen, gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen yn Sir Benfro.

**4.** Mae'r gwaharddiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw Reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel petaent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984 neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall ac nid yn rhanddirymiad o'r cyfyngiad neu'r gofyniad hwnnw.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Chwefror 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith.
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(2), 2(1) a 2 gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17 a 18. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.